



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Teilo Sant

**Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LU**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Teilo Sant

Enw'r darparwr	Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Dim
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	179
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	150
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	29
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	4%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	4.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	73.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2022
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/04/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	07/05/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae bron bob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn hapus ac yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi. Mae bron bob un yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn hynod gwrtais i'w gilydd ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu mewn amgylchedd Cymreig. Maent yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol a chreadigol sy'n mynd ati i gwblhau eu tasgau heb ffws. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau priodol ac yn dyfalbarhau'n gydwytbodol ar eu tasgau. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn ym mhob agwedd o'u dysgu ac yn cyfathrebu'n gwbl naturiol yn y Gymraeg gan ddefnyddio tafodiaith Dyffryn Tywi.

Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi barn am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, gan gynnwys eu rôl ar y gwahanol gynghorau. Dim ond disgyblion Blwyddyn 6 sydd ar y cyngor ysgol ar hyn o bryd, ac maent yn hynod weithgar yn cynrychioli eu cyfoedion i wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er hyn, nid yw'r sefyllfa fel y mae yn rhoi cyfle i ddisgyblion o ddsbarthiadau eraill gyfrannu at waith y cyngor nac i ddysgu wrth yr aelodau presennol sut i redeg y cyngor pan ddaw eu cyfle nhw.

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n hynod effeithiol i roi arweiniad cadarn i'r ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain, yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n hynod gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan gartrefol i'r disgyblion a'r staff. Maent yn sicrhau bod safon yr addysgu, y dysgu a'r gofal yn dda iawn. Ynghyd â'r holl staff, maent yn gweithio'n dda fel tîm i arwain yr addysgu a darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion, sy'n dal eu dychymyg ac yn eu hannog i fod yn awyddus i ddysgu. Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus iawn.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y cyngor ysgol yn cynnwys disgyblion o wahanol ddsbarthiadau er mwyn i'r rhai iau ddysgu sut i weithredu'n effeithiol ar bwylgorau wrth eu cyfoedion sy'n hŷn

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn siarad Cymraeg ac yn meddu ar fedrau cymdeithasol sy'n cyfateb i'r disgwyl am eu hoed. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn ym mhob agwedd o'u dysgu.

Mae medrau llythrennedd bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd o oedran ifanc iawn. Mae bron bob un yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn gynnar ac yn cyfathrebu'n glir â'u cyfoedion ac oedolion. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae disgyblion yn cyfathrebu'n gwbl naturiol yn y Gymraeg gan ddefnyddio tafodiaith Dyffryn Tywi. Maent hefyd yn siarad Saesneg yn hyderus gan ddefnyddio geirfa ac ystod o batrymau safonol eang. Mae medrau darllen bron bob un yn datblygu'n gadarn yn unol â'u cam cynnydd. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn gynyddol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg gan egluro'r cynnwys gyda manylder. Maent yn amrywio goslef y llais, lle bo angen, ac yn defnyddio mynegiant clir wrth ddarllen ar goedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gadarn drwy greu marciau yn fedrus mewn ystod o ffurfiau ac ar ystod o ddeunyddiau fel papur, tywod a cherdyn. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau ac yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn hyderus. Er enghraifft, maent yn creu erthygl papur newyddion yn seiliedig ar ddigwyddiadau'r Ail Ryfel Byd.

Mae bron bob un yn defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn gynyddol hyderus. Mae'r rheini yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn dod i gyfiri'n gywir yn fuan iawn, gan ddeall bod rhif yn cyfleu gwybodaeth benodol. Er enghraifft, maent yn taflu dis a chyfateb nifer y smotiau i'w gosod ar gefn model o fuwch goch gota. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae bron bob un yn defnyddio'u dealltwriaeth o rif yn hyderus iawn. Er enghraifft, maent yn cyfrifo llog ar symiau penodol o arian. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi y bydd datblygu eu medrau mathemategol yn bwysig iddynt yn eu bywyd bob dydd, maes o law.

O oedran cynnar, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau digidol cadarn ac yn eu cymhwyso'n effeithiol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu. Mae bron bob un yn defnyddio ystod eang o fedrau digidol yn gynyddol hyderus i ymchwilio, cofnodi, golygu, ailddrafftio a chyflwyno canfyddiadau yn unol â'u cam cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, mathemategol a digidol yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn seiliedig ar chwedl Culhwch ac Olwen, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn plannu hadau ffa ac yn cymhwyso'u medrau mesur i nodi tyfiant bob un mewn nifer benodol o ddiwrnodau. Maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd a digidol i greu gwahoddiad i briodas Culhwch ac Olwen, gan drafod y wybodaeth sydd ei angen arno.

Fel rhan o'u hastudiaeth ddiweddar o wahanol grefyddau, mae disgyblion Blwyddyn 4 wedi ymchwilio ar y we i ddod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag arferion Cristnogion a Mwslimiaid cyn ymweld â'r eglwys leol, i'w chymharu â mosg. Maent wedi cofnodi'r elfennau sy'n debyg a gwahanol ar siart Venn, defnyddio'u dealltwriaeth o raddfa i greu cynllun o'r eglwys ac wedi ysgrifennu llythyr o ddiolch at y Ficer.

Ym Mlwyddyn 6, fel rhan o'u cywaith ar y bydysawd, mae disgyblion yn defnyddio gwefannau cyfrwng Saesneg i ymchwilio i briodoleddau gofodwyr cyn cyfieithu'r wybodaeth yn gywir i'r Gymraeg. Yna, maent yn defnyddio'r wybodaeth i greu meini prawf i ddatrys her o ddewis tîm o ofodwyr i fynd ar daith i'r gofod. Defnyddiant eu medrau rhesymu a datrys problemau yn aeddfed wrth drafod mewn grwpiau y nodweddion pwysicaf sydd eu hangen ar ofodwyr effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol llwyddiannus o oedran ifanc iawn. Maent yn gweithio'n gelfydd gydag amrywiol dechnegau a chyfryngau i greu darnau celf o safon uchel. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn datblygu eu hyder a'u gallu cerddorol drwy ymgysylltu'n frwdfrydig â pherfformiadau a chyngherddau yn yr ysgol a'r gymuned leol a thrwy gystadlu'n gyson mewn cystadlaethau amrywiol fel Eisteddfod yr Urdd.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol. Maent yn hapus ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan oedolion. Mae ymddygiad bron bob un yn ardderchog, maent yn gwrtais a siriol i'w gilydd ac yn cyfarch staff ac ymwelwyr mewn ffordd hynod gyfeillgar. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn deall sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar lein ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryder. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cyfraddau uchel o bresenoldeb sy'n bodoli, ac sy'n parhau i godi dros dair blynedd. Ar hyn o bryd, mae'r cyfraddau presenoldeb yn sylweddol uwch na chyfraddau cyfartalog presenoldeb ysgolion cynradd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn gwerthfawrogi effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau addysg gorfforol. Mae llawer hefyd yn croesawu'r amrywiol gyfleoedd a gânt gan yr ysgol i fynychu gweithgareddau a chystadlaethau chwaraeon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu drwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn frwdfrydig ac effeithiol, gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae'r Cyngor Iechyd Da a Phlaned Iach yn ailgylchu gwisgoedd ysgol, papur, plastig, metel a chardfwrdd yn rheolaidd ac yn arbed ynni trwy ddiffodd y golau pan nad oes ei angen. Maent hefyd wedi codi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o iechyd meddwl drwy ddatblygu diwrnod lles ar wahanol agweddau o feddylgarwch. Cynrychiolaeth o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn unig sydd ar y cyngor ysgol cyfredol, ac maent yn hynod weithgar yn cynrychioli eu cyfoedion i wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn annog eraill i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol trwy ddefnyddio Pasbort Cymraeg i wobrwyo'r defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd llai

ffurfiol. Er eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion o ddsbarthiadau eraill yr ysgol, nid yw hyn wedi ei ffurfioli.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu. Maent yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol a chreadigol sy'n mynd ati'n ddiymdroi i gwblhau eu tasgau. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig yn unol â'u cam cynnydd ac yn dyfalbarhau'n gydwytodol ar eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn gweithio'n hynod annibynnol a hyderus gan ddewis yr ardaloedd maent am dreulio amser ynddynt a'r hyn maent am ei ddysgu. Wrth iddynt ddatblygu, maent yn cydweithio'n gynhyrchiol, gan wrando'n astud ar farn ei gilydd wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cydweithio'n effeithiol i fesur tymheredd a chasglu data ar sain o gwmpas yr ysgol fel rhan o thema'r tymor. Wrth wynebu anhawster â'u tasgau, mae disgyblion yn dilyn y drefn o fyfyrion, trafod a chydweithio â chyd-ddisgyblion cyn gofyn am gymorth gan oedolyn. Mae hyn yn eu hannog i roi tro arni heb ofni methu ac yn cyfrannu'n dda at yr ethos o ddysgu annibynnol sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion, sy'n dal eu dychymyg ac yn eu hannog i fod yn awyddus i ddysgu. Mae'n cydymffurfio'n llwyddiannus ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnwys gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn hynod lwyddiannus. Mae'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant a pharhad yn eu haddysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr a phwrpasol, sy'n mynd i'r afael ag anghenion bron bob un, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn. Cynllunnir trawstoriad diddorol o brofiadau dysgu i ddisgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad i ddatblygu eu diddordebau a'u hamrywiol fedrau yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth i rheini yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn hynod lwyddiannus. Mae hyn yn gosod sylfaen gadarn i'r disgyblion hyn ac yn meithrin chwilfrydedd a chwant ynddynt at ddysgu wrth iddynt gychwyn eu taith addysgol. Maent yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion o oedran ifanc iawn ymweld a chydweithio ag unigolion mewn busnesau lleol i ddod â'r dysgu'n fyw iddynt. Er enghraifft, maent wedi ymweld â gemydd lleol yn ei siop, a chydweithio â hi i greu gemwaith ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Mae medrau addysgu'r athrawon a'r cynorthwywyr yn gadarn iawn ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau aruchel ac mae bwrlwm y gweithgareddau maent yn eu cyflwyno yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn ysgogi'r disgyblion yn llwyddiannus iawn ac yn eu meithrin i fod yn ddysgwyr annibynnol, gwydn a chydwybodol. Maent yn hybu brwdfrydedd yn y disgyblion ac yn meithrin ynddynt yr awydd i wneud eu gorau ym mhob gweithgaredd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dyfalbarhau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, gan ddangos parch a brwdfrydedd at eu tasgau. Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae athrawon a chynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn hynod o dda ac yn addasu eu gweithgareddau dysgu yn effeithiol i ymateb i'w hanghenion.

Un o nodweddion cryf iawn gwaith yr ysgol yw ymrwymiad yr holl oedolion i ddatblygu medrau llafar Cymraeg pob disgybl. Maent yn defnyddio Cymraeg safonol a graenus ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur priodol ac i ymfalchïo ynddi a pharchu treftadaeth a diwylliant yr ardal a Chymru.

Fel rhan o waith naturiol y dosbarth, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau i alluogi disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, maent yn cyflwyno gweithgareddau pwrpasol iddynt ddysgu am wahaniaethau, pwysigrwydd trin pawb â pharch a herio stereoteipiau.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau bwriadus a dilys i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y dosbarth meithrin a derbyn, maent yn annog y disgyblion ieuengaf i ddefnyddio llestri pridd yn y caffi a deunydd naturiol i wneud bomiau bath yn y labordy gwyddoniaeth. Mae'r athrawon a'r cynorthwyr hefyd yn darparu gweithgareddau dysgu yn yr ardal allanol yn hynod fedrus. Er enghraifft, maent yn defnyddio gwteri go iawn i symud dŵr o un man i'r llall, a bwcedi o wahanol ddefnyddiau fel drymiau i greu cerddoriaeth ddiddorol. Mae hyn yn cyfoethogi'r dysgu yn hynod effeithiol ac yn datblygu chwilfrydedd a medrau annibynnol y disgyblion yn llwyddiannus iawn o oedran ifanc. Mae athrawon yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion arbrosi ag amrywiaeth o ddeunyddiau y tu mewn ac yn yr ardal allanol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 wedi cael cyfarwyddyd i ddod o hyd i'r defnydd gorau i greu hidlydd dŵr fel rhan o'u thema.

Mae athrawon a chynorthwyr yn holi disgyblion yn synhwyrol yn ystod cyflwyniadau ac yn rhannu adborth adeiladol ganddynt, sy'n canmol eu cryfderau ac yn nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymateb yn gynyddol effeithiol i'r adborth hwn ac yn gwella elfennau o'u gwaith o ganlyniad, er enghraifft drwy ailddrafftio paragraffau i wella safon y testun, lle bo angen.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach drwy drefnu ymweliadau pwrpasol sy'n cyd-fynd â themâu penodol, fel ymweliad â Pharc Dinefwr i sbarduno'u tasgau dysgu'r dosbarth meithrin a derbyn yn seiliedig ar anifeiliaid. Maent hefyd yn gwahodd unigolion a grwpiau i'r ysgol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faes dysgu penodol. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu cwmni drama yn yr ysgol i gyflwyno cymeriadau hanesyddol fel Harri Tudur.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos hapus, cynhwysol a chroesawgar iawn yn yr ysgol. Mae pwyslais cryf yn bodoli ar annog disgyblion i werthfawrogi eu cynefin a pharchu eraill. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu unigolion sy'n gwrtais, yn ymddwyn yn ardderchog ac yn falch iawn o'u hysgol a'u cymuned. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r sylw a roddir yn gyson i iechyd meddwl a lles disgyblion a staff. Rhoddir cyfleoedd helaeth i ddisgyblion drafod eu hemosiynau a'u teimladau mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys treulio cyfnodau mewn ystafell benodol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer hynny.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae pob un yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddiogel. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gweithdrefnau'r ysgol i fonitro, cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn galluogi athrawon a chynorthwywyr i adnabod anghenion penodol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar iawn ac i ddarparu cefnogaeth addas iddynt sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n gydwybodol a gofalgwr i gefnogi'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn monitro'r gefnogaeth hon yn llwyddiannus, gan sicrhau bod bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau strategol sy'n effeithio ar eu bywyd ysgol yn ogystal â chynnwys eu themâu dosbarth. Mae disgyblion yn siarad yn frwd am eu rôl ar y gwahanol bwyllgorau sy'n cynnwys, y cyngor ysgol, Cyngor Iechyd da a Phlaned Iach a Chyngor Digidol ac am eu dylanwad ar waith yr ysgol. Mae aelodau'r Cyngor Digidol, er enghraifft, yn creu bwletin misol i hybu'r defnydd o apiau a diogelwch ar y we i'w rhannu gyda'u cyfoedion. Mae effaith gwaith y cyngor ysgol yn amlwg mewn nifer o feysydd o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, dim ond cynrychiolaeth o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd ar y cyngor ysgol cyfredol sy'n llesteirio gallu disgyblion iau i leisio barn a meithrin medrau arwain yn y dyfodol.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn llwyddiannus iawn. Maent yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am, a dathlu, hanes a thraddodiadau Cymru trwy ddigwyddiadau rheolaidd fel eisteddfodau, ymweliadau artistiaid a cherddorion a dathlu diwrnodau fel Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r gymuned yn arbennig o effeithiol fel adnodd addysgol trwy drefnu astudiaethau amgylcheddol ac ymweliadau â busnesau lleol fel rhan o'r gwaith dosbarth.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Cynhelir cyfnodau penodol i ddisgyblion fyfyrion ac ystyried safbwyntiau eraill yn rheolaidd. Mae'r ysgol hefyd yn annog disgyblion i weithredu'n gynaliadwy. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi defnyddio arian gan gwmni sy'n ailgylchu dillad i brynu adnoddau i greu deunydd di-blastig i bacio bwyd yn yr ysgol. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddysgu am ystod o gredoau a chrefyddau fel rhan greiddiol o'u themâu. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o sut mae pobl sy'n wahanol iddyn nhw yn byw ac yn eu galluogi i ddangos empathi ac i fod yn ddinasyddion gwybodus ac egwyddorol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd cyfoethog sy'n hyrwyddo lles, iechyd meddwl a chorfforol y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'n cynnig gwersi nofio, clybiau chwaraeon a sesiynau ymarfer corff iddynt yn rheolaidd. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd cadarn i ddatblygu eu medrau creadigol, drwy weithio gydag artistiaid lleol a mynychu gwersi dawn a chanu yn y côr, er enghraifft.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n hynod effeithiol i ddarparu arweiniad cadarn i'r ysgol. Maent yn cynnal diwylliant parhaus o welliant ac, ynghyd â'r athrawon a'r cynorthwywyr, yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm i arwain yr addysgu yn llwyddiannus. Ar y cyd, maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu maent yn eu cynnig i'r holl ddisgyblion yn gyffrous, diddorol a chyfoethog.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol y maent yn ei rhannu'n llwyddiannus â'r disgyblion, staff a'r rhieni. Mae'r weledigaeth honno wedi ei chrynhof'n daclus mewn pennill, sef:

Ein cynefin a'n hiaith yw ein seilwaith
Tegwch a pharch ddaw â chlod
Hapus ac iach – yn llawn afiaith,
Uwch na'r copa yw'r nod.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n hynod gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn lleoliad cartrefol i'r disgyblion a'r staff. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol iawn. Mae gweithdrefn rheoli perfformiad athrawon yn gadarn ac yn gyfle i arweinwyr ganmol eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella er budd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso manwl ac effeithiol ac mae'r holl staff yn cyfrannu'n uniongyrchol atynt. Mae disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr hefyd yn cyfrannu atynt yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun hynod gywir o'r sefyllfa gyfredol. Maent yn nodi'n glir yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wella. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau gwella. Mae gweithdrefnau gwella'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyflawniad, cyrhaeddiad, cynnydd a lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog a bwriadus i athrawon a chynorthwywyr ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol. Maent yn seilio'r gweithgareddau hyn ar flaenoriaethau cenedlaethol, blaenoriaethau gwella'r ysgol ac ar anghenion proffesiynol unigol y staff. Maent yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth a'r dulliau addysgu yn rheolaidd. Maent hefyd yn trefnu bod athrawon yn arsylwi ar arfer dda ei gilydd ar draws yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Yn ddiweddar, er enghraifft, maent wedi canolbwyntio ar ddyddu mwy am wahanol ddulliau o addysgu ysgrifennu a sut i wella medrau meddwl disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn annog athrawon i rannu arferion effeithiol eu haddysgu gyda staff ysgolion eraill. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys sut mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion ieuengaf a sut maent yn datblygu medrau meddwl disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn brofiadol ac yn darparu cydbwysedd synhwyrol ac effeithiol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso

agweddau penodol o'r ddarpariaeth ac i gynnal trafodaethau â chydlynwyr y meysydd dysgu a phrofiad a'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn wybodus am yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r ychydig feysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n hynod wybodus at bennu'r blaenoriaethau strategol ac i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Ynghyd â'r pennaeth, y swyddog gweinyddol, a swyddogion yr awdurdod lleol, maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt fynegi barn am agweddau ar y ddarpariaeth, gan ymateb yn amserol i'w sylwadau, lle bo'n briodol. Er enghraifft, yn dilyn dadansoddiad o holiaduron i rieni, maent wedi amlygu ymagwedd yr ysgol at iechyd meddwl ac emosiynol disgyblion a staff ar ei gwefan.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol â meithrinfeydd lleol a'r ysgolion uwchradd y mae'n eu bwydo i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus o un sector i'r llall. Mae'r bartneriaeth ag ysgolion cynradd ac uwchradd eraill y clwstwr yn effeithiol iawn ac yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i athrawon ddatblygu gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2024